

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 03/07/17

PRESENNOL: Cynghorwyr: Gwyn Morris Jones (cadeirydd), John Emlyn Jones (cofnodwr), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Austin Roberts, Arthur Williams a Ceri Leeder.

YMDDIHEURIADAU: DIM

DATGAN DIDDORDEB: Cynghorydd Gwyn Morris Jones (eitem 10- Cynllunio Bodlondeb, Trofarth)

COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF: Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (05/06/17)

MATERION YN CODI:

1.Arwydd Canolfan Bwyd Cymru - Dim byd pellach i'w adrodd.

Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts i gysylltu gyda Llywodraeth Cymru eto.

2.Arwyddion Y Diffibrilydd - Nodwyd fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer arwyddion 0.3m² neu fwy.

Cytunodd y Cyngordd Austin Roberts i gysylltu gyda swyddogion y Cyngor Sir parthed rhoi'r arwyddion ar bolion lamp.

3.Sŵn Cŵn yn Cyfarth- Hysbysodd y Cynghorydd Austin Roberts ei fod wedi cael gair gyda'r swyddogion yn yr adran rheoleiddio a'u bod yn parhau i fonitro am rai wythnosau eto.

Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts i barhau i gysylltu gyda'r adran briodol.

4.Y Polyn Fflag - Dim wedi ei wneud hyd yma. Mae baner newydd wedi ei phrynu.

5.Noson Tân Gwyllt- Mae'r Cynghorydd John Emlyn Jones wedi cysylltu gyda chadeirydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gyda'r manylion perthnasol.

6.Cyffordd Ffordd Eglwys Bach a Heol Martin - Derbyniwyd rhybudd gan y Cyngor Sir o'r bwriad i roi llinellau melyn ger y fynedfa i Heol Martin. Trafodwyd y cynlluniau.

Penderfynwyd: Anfon at y Cyngor Sir yn gofyn am newid yn eu cynlluniau er mwyn sicrhau fod y llinellau melyn yn 17m y ddwy ochr i'r fynedfa.

7.Gwefan y Cyngor: Dim byd pellach i'w adrodd

8.Mieri ar wal y Fynwent- Nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau eto. Mae'r Cynghorydd Austin Roberts wedi gofyn i Mr W D Williams wneud y gwaith. Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts i roi halen ar y bonion wedyn.

9. Cyfethol cynghorwyr newydd: Darllenwyd llythyrau gan bedwar person oedd wedi dangos diddordeb i gael eu cyfethol ar gyfer y tair sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Cynhaliwyd pleidlais gudd a derbyniodd y personau isod fwyafrif o bleidleisiau'r cynghorwyr:

Mrs Gwenan Roberts
Mrs Phyllis Purchase
Mrs Catherine Williams

Cyhoeddodd y cadeirydd fod y tair a enwir uchod wedi eu cyfethol ar y Cyngor.

10. Ceisiadau Cynllunio - Trafodwyd y ceisiadau cynllunio fel a ganlyn:

0/44092 Bodlondeb Trofarth

Ymneilltuodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais uchod.

Penderfynwyd: Nid yw'r Cyngor Cymuned yn codi unrhyw wrthwynebiad i'r cynlluniau fel ag y maent. Serch hynny, rydym yn bryderus na fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i newid natur werinol yr annedd wledig hon.

0/44054 Furnace Farm creu drysau dwbl newydd yn wal yr ystafell de gyda ramp, stepiau â chanllaw.

Penderfynwyd: Gwrthwynebu'r cais gan ei fod yn mynd yn groes i'r amodau a nodwyd yn y caniatâd gwreiddiol er mwyn sicrhau cadw gwelediad gwreiddiol yr adeilad sydd mewn man amlwg wrth deithio ar hyd yr A470.

0/44096 Tir Dolgarrog-Llanrwst - ail adeiladu'r llinell 11Kw uwchben presennol.

Penderfynwyd: Roedd y cynghorwyr am ategu pryderon y cyrff megis CADW, GAT bod pob gofal rhesymol yn cael ei wneud i beidio gwneud difrod i'r tir wrth adeiladu'r llinell uwchben hon.

11. Sgip Cymunedol: Nodwyd bod sgip wedi ei drefnu ar gyfer dydd Sadwrn Hydref 14eg.

12. Mast Ffôn- Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorwyr Austin Roberts a John Lloyd Williams o gyfarfod a gafwyd gyda Mr John Rees ar gais gwmni Shared Access Ltd sydd yn awyddus i osod mast ffonau symudol ar dir o eiddo'r Cyngor Cymuned. Yn dilyn ymweliad safle, daeth Mr Rees i'r casgliad fod y safle dan sylw yn anaddas.

13. Taliadau -

Sue Hayward (glanhau toiledau Mehefin) £98
Ceri Leeder (baner newydd) £116.34

14. Pont Ffordd Bryn Hir- Hysbysodd y Cynghorydd Austin Roberts fod y Cyngor Sir wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant o £60,000 i wneud gwaith o amgylch Pont Ffordd

Bryn Hir ac mae'r swyddogion yn dymuno cyfarfod gyda'r aelodau yn fuan i drafod y cynlluniau.

Penderfynwyd: Cynnal cyfarfod gyda swyddogion CBS Conwy ymhen tair wythnos ac i wahodd y cynghorwyr newydd, Mr Richard Williams a rhai trigolion sydd â diddordeb arbennig yn y gwaith i'r cyfarfod.

15. Mynwent: Nododd y Cynghorydd John Lloyd Williams fod dau beth angen sylw yn y fynwent sef:

- clirio glaswellt sydd wedi ei dorri
- torri'r gwrych rhwng y fynwent a Chilgerran

Penderfynwyd: Cytunodd y Cynghorydd John Lloyd Williams i gysylltu gydag Emrys Davies i glirio'r glaswellt a chysylltu gyda thrigolion Cilgerran a gofyn iddynt drefnu bod y gwrych yn cael ei dorri.

16. Gohebiaeth -

16.1 Rheolaeth Traffig: Derbyniwyd neges e-bost gan un o drigolion sy'n byw ar Ffordd Gyffyllog yn cwyno am y rheolaeth traffig oherwydd gwaith BT ar y brif ffordd i'r pentref.

Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts i ddelio gyda'r mater.

16.2 Tai Fforddiadwy: Derbyniwyd neges gan Victoria Kelly Hwylusydd Tai Gwledig yn gofyn am gael dod i gyfarfod y cyngor.

Penderfynwyd: Estyn gwahoddiad iddi i'r cyfarfod nesaf ym mis Medi.

Terfynwyd y cyfarfod am 9:20

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Medi 4^{ydd} am 7:30

Cyngor Cymuned Eglwys Bach- Cofnodion Cyfarfod 25/07/2017

PRESENNOL: Cyngorwyr: Austin Roberts, John Emlyn Jones (cofnodwr), Ceri Leeder, Phyllis Purchase, Gwenan Roberts a Catherine Williams.

Roedd y cyngorwyr newydd i gyd wedi derbyn copi o gôd ymddygiad y Cyngor ac wedi arwyddo ffurflen derbyn swydd cyn y cyfarfod.

Roedd y swyddogion canlynol o GBS Conwy yn bresennol: Mri. Bryn Shiland a Gwyn Parry.

Yn bresennol hefyd roedd aelodau o'r cyhoedd a wahoddwyd i'r cyfarfod: Ms Katherine Himsworth, Mri. Gwyn Williams, Richard Williams a Steve Dolan.

YMDDIHEIRIADAU: Cyngorwyr: Gwyn Morris Jones, Gwilym Williams, Arthur Williams a John Lloyd Williams

DATGAN DIDDORDEB: DIM

Y prif fater dan sylw oedd derbyn adroddiad gan swyddogion y cyngor parthed y gwaith arfaethedig o amgylch Pont Ffordd Bryn Hir. Rhanwyd copiâu papur o'r cynlluniau a rhoddwyd esboniad gan y ddau swyddog. Prif reswm dros y gwaith oedd i sicrhau'r ased. Bydd y llif o dan y bont yn cynyddu oherwydd y gwaith ac felly yn lleihau'r risg o lifogydd i fyny'r afon.

Yn ystod y drafodaeth mynegwyd pryder:

- am gynyddu'r peryg o lifogydd islaw'r afon os oedd y llif yn fwy o dan y bont
- bod gosod clwyd o dan y bont i atal gwartheg rhag crwydro yn debygol o achosi llifogydd pan fydd y llif yn fawr

Nodwyd y canlynol:

- disgwylir i'r prisiau gan gontractwyr ddod yn ôl erbyn Awst 10fed
- bydd angen cau'r llwybr am gyfnod yn ystod y gwaith
- rhaid i'r gwaith gael ei gwblhau cyn dechrau Hydref (tymor epilio)

Cytunodd y swyddogion, y Cyngorwyr Austin Roberts a Mr Richard Williams gyfarfod ar y safle yn syth ar ôl y cyfarfod yma i drafod ymhellach.

Gadawodd y cyhoedd y cyfarfod.

Cais i agor bedd yn y fynwent yn groes i bolisi'r Cyngor. Derbyniwyd cais gan deulu i agor bedd mewn man heb fod yn dilyn y drefn arferol ond yn yr un rhes, er mwyn i berson cael ei gladdu mewn man yn agos at aelod arall o'r teulu.

Penderfynwyd: Cytuno i newid y polisi am y tro hwn. Codi tâl o £400 am y gladdedigaeth hon. Trafod y polisi yn y cyfarfod nesaf.

Taliadau: W D Williams £780 (torri glaswellt Mehefin a Gorffennaf)